OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 1642 (Cy.157)

TAI, CYMRU

Rheoliadau Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Ffioedd) (Cymru) 2006

Wedi'i wneud	- -	*20 Mehefin 2006*
Yn dod i rym	- -	*23 Mehefin 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan baragraffau 1 a 11 o Atodlen 13 i Ddeddf Tai 2004(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Ffioedd) (Cymru) 2006 a deuant i rym ar 23 Mehefin 2006.

(2) Yn y Rheoliadau hyn–

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Tai 2004;

ystyr "Deddf 1985" ("*the 1985 Act*") yw Deddf Tai 1985(**2**);

ystyr "tribiwnlys" ("*tribunal*") yw tribiwnlys eiddo preswyl.

Cymhwyso

2. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran apeliadau a cheisiadau o unrhyw un o'r mathau a bennir yn rheoliad 3 sy'n cael eu gwneud ar ôl 23 Mehefin 2006 sy'n ymwneud â mangreoedd yng Nghymru.

Ffioedd

3.—(1) Yn ddarostyngedig i reoliad 5(2), mae ffi o £150 yn daladwy am-

(a) apêl i dribiwnlys o dan–

(i) adran 22(9) o'r Ddeddf (gwrthod cymeradwyo defnydd o fangre sy'n ddarostyngedig i orchymyn gwahardd);

(ii) paragraff 10 o Atodlen 1 i'r Ddeddf (hysbysiad gwella);

(**1**) 2004 p.34. Mae'r pwerau a roddwyd gan baragraffau 1 a 11 o Atodlen 13 i'r Ddeddf yn arferadwy o ran Cymru, gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac, o ran Lloegr, gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Gweler y diffiniad o "appropriate national authority" ("yr awdurdod cenedlaethol priodol") yn adran 261(1) o'r Ddeddf.

(**2**) 1985 p.68.

(iii) paragraff 13 o Atodlen 1 i'r Ddeddf (penderfyniad i amrywio neu benderfyniad i wrthod dirymu neu amrywio hysbysiad gwella);

(iv) paragraff 7 o Atodlen 2 i'r Ddeddf (gorchymyn gwahardd);

(v) paragraff 9 o Atodlen 2 i'r Ddeddf (penderfyniad i amrywio neu benderfyniad i wrthod dirymu neu amrywio gorchymyn gwahardd);

(vi) paragraff 11 o Atodlen 3 i'r Ddeddf (hysbysiad gwella: hawliad i ad-ennill treuliau);

(vii) paragraff 32 o Atodlen 5 i'r Ddeddf (trwyddedu HMO: penderfyniad i amrywio neu i ddirymu trwydded neu benderfyniad i beidio â gwneud hynny);

(viii) paragraff 32 o Atodlen 6 i'r Ddeddf (gorchymyn rheoli: iawndal i drydydd parti);

(ix) paragraff 26(1)(a) a (b) o Atodlen 7 i'r Ddeddf (gorchymyn terfynol rheoli tŷ gwag);

(x) paragraff 30 o Atodlen 7 i'r Ddeddf (penderfyniad i ddirymu neu i amrywio gorchymyn terfynol neu dros dro rheoli tŷ gwag neu benderfyniad i beidio â gwneud hynny);

(xi) paragraff 34(2) o Atodlen 7 i'r Ddeddf (gorchymyn rheoli tŷ gwag: iawndal i drydydd parti);

(xii) adran 269(1) o Ddeddf 1985 (gorchmynion dymchwel);

(b) cais i dribiwnlys o dan–

(i) adran 126(4) o'r Ddeddf (effaith gorchmynion rheoli: dodrefn);

(ii) adran 138 o'r Ddeddf (iawndal taladwy i drydydd part 149 on);

(iii) adran 318(1) o Ddeddf 1985 (pŵer y tribiwnlys i awdurdodi gwneud gwaith ar fangre nad yw'n ffit neu ar gyfer gwelliant).

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3) a rheoliad 5(2), mae ffi o £150 i'w thalu am apêl i dribiwnlys o dan un neu fwy o'r darpariaethau a ganlyn–

(a) adran 62(7) o'r Ddeddf (trwyddedu HMO: gwrthod cyflwyno hysbysiad esemptiad dros dro);

(b) adran 86(7) o'r Ddeddf (trwyddedu dethol: gwrthod cyflwyno hysbysiad esemptiad dros dro);

(c) paragraff 31 o Atodlen 5 i'r Ddeddf (rhoi neu wrthod trwydded);

(ch) paragraff 24 o Atodlen 6 i'r Ddeddf (gorchymyn rheoli dros dro a gorchymyn rheoli terfynol);

(d) paragraff 28 o Atodlen 6 i'r Ddeddf (penderfyniad i amrywio neu i ddirymu gorchymyn rheoli neu benderfyniad i wrthod gwneud hynny).

(3) Nid oes ffi i'w thalu os yw apêl o dan is-baragraff (1)(b) o baragraff 24 o Atodlen 6 i'r Ddeddf yn cael ei gwneud ar y seiliau a osodir yn is-baragraff (3) o'r paragraff hwnnw.

Talu ffioedd

4. Mae'n rhaid i unrhyw ffi sydd i'w thalu o dan reoliad 3 fynd gyda'r apêl neu'r cais a rhaid ei thalu â siec sy'n daladwy i, neu â gorchymyn post wedi ei dynnu o blaid Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Rhwymedigaeth i dalu ffi a gosod ffioedd o'r neilltu

5.—(1) Mae'r apelydd neu'r ceisydd yn atebol i dalu unrhyw ffi sydd i'w thalu o dan reoliad 3.

(2) Nid oes ffi i'w thalu o dan reoliad 3 os, ar y dyddiad y gwneir yr apêl neu'r cais, yw'r apelydd neu'r ceisydd (yn ôl y digwydd) neu bartner yr apelydd neu'r ceisydd yn derbyn–

(a) unrhyw un o'r budd-daliadau a ganlyn o dan Ran 7 o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992(**3**)–

(i) cymhorthdal incwm; neu

(ii) budd-dal tai;

(b) lwfans ceisio gwaith yn seiliedig ar incwm o fewn ystyr adran 1 o Ddeddf Ceiswyr Gwaith 1995(**4**);

(c) credyd treth gwaith o dan Ran 1 o Ddeddf Credydau Treth 2002(**5**)y mae paragraff (3) yn gymwys iddo;

(ch) credyd gwarant o dan Ddeddf Credyd Pensiynau'r Wladwriaeth 2002(**6**).

(3) Mae'r paragraff hwn yn gymwys os-

(a) naill ai–

(i) oes elfen anabledd neu elfen anabledd difrifol (neu'r ddau)(**7**)i'r credyd treth y mae'r person neu bartner y person yn ei gael; neu

(ii) yw'r person neu bartner y person hefyd yn cael credyd treth plant (**8**); a

(b) yw'r incwm blynyddol gros a gymerir i ystyriaeth ar gyfer cyfrifo'r credyd treth gwaith yn £14, 213 neu lai.

(4) Yn y rheoliad hwn ystyr "partner" ("partner") o ran person, yw–

(a) os yw'r person yn aelod o gwpwl, yr aelod arall o'r cwpwl hwnnw; neu

(b) os yw'r person yn briod ar yr un pryd â dau neu fwy o aelodau o aelwyd y person hwnnw, unrhyw aelod o'r fath.

(5) Ym mharagraff (4), ystyr "cwpwl" ("couple") yw–

(a) dyn a dynes sy'n briod â'i gilydd ac sy'n aelodau o'r un aelwyd;

(b) dyn a dynes nad ydynt yn briod â'i gilydd ond sy'n byw gyda'i gilydd fel gŵr a gwraig;

(c) dau o bobl o'r un rhyw sy'n bartneriaid sifil i'w gilydd ac sy'n aelodau o'r un aelwyd; neu

(ch) dau o bobl o'r un rhyw nad ydynt yn bartneriaid sifil i'w gilydd ond sy'n byw gyda'i gilydd megis petaent yn bartneriaid sifil,

ac at ddibenion is-baragraff (ch), rhaid ystyried bod dau o bobl o'r un rhyw yn byw gyda'i gilydd megis petaent yn bartneriaid sifil os, ond yn unig os, byddid yn ystyried eu bod yn byw gyda'i gilydd fel gŵr a gwraig petaent yn hytrach yn ddau o bobl o wahanol ryw.

Ad-dalu ffioedd

6.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), o ran unrhyw apêl neu gais y mae ffi i'w thalu ar ei gyfer o dan reoliad 3, caiff tribiwnlys ei gwneud yn ofynnol i unrhyw barti i'r apêl neu'r cais ad-dalu i unrhyw barti arall y cyfan neu ran o unrhyw ffi a dalwyd gan y parti hwnnw o ran yr apêl neu'r cais.

(2) Ni chaiff tribiwnlys ei gwneud yn ofynnol i barti wneud ad-daliad o'r fath os yw'r tribiwnlys, pan fo'n ystyried p'un ai i wneud hynny ai peidio, wedi'i fodloni fod y parti neu bartner y parti yn cael cymorth o unrhyw fath a grybwyllir yn rheoliad 5(2).

(**3**) 1992 p.4; diwygiwyd gan Ddeddf Credydau Treth 2002 (p.21), adrannau 60 ac Atodlen 6. Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**4**) 1995 p.18; diwygiwyd gan Ddeddf Pensiynwyr a Diwygio Lles 1999 (p. 30), adrannau 59 ac 88 ac Atodlenni 7 a 13.
(**5**) 2002 p.21.
(**6**) 2002 p.16.
(**7**) Gweler adran 11(3), (4) a (6) o Ddeddf Credydau Treth 2002.
(**8**) Gweler adran 8 o Deddf Credydau Treth 2002.